

## **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT** **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNGHORWYR**

Dyma'r adroddiad gan y Cynghorydd a enwir isod ynglŷn â'u gweithgareddau allweddol dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Ebrill 2018. Fe'i darperir er gwybodaeth ar gyfer pob etholwr ac nid at unrhyw ddiben arall.

*Cyfarwyddiadau cwblhau: Mae cynghorwyr yn rhydd i gynnwys cymaint neu gyn lleied o wybodaeth ag y dymunant ym mhob adran, fodd bynnag, dylid cadw'r adroddiad i'r fformat **uchafswm 2 dudalen** hyn.*

**Y Cynghorydd: Joanna Wilkins**

**Plaid: Annibynnol**

**Ward: Cwmtylleri**

### **Adran 1 – Rolau a Chyfrifoldebau**

Aelod annibynnol o gyngor Blaenau Gwent. Rwy'n aelod o bwyllgorau trosolwg corfforaethol / craffu gwasanaethau cymdeithasol ac is-gadeirydd trwyddedu (statudol a chyffredinol). Rwy'n bencampwr yr aelodau ar ddiogelwch Cymunedol ac rwy'n aelod o'r pwyllgor safonau. Rwy'n gynrychiolydd y cyngor ar y panel maethu ac ers 19 Mawrth 2018, yr wyf yn un o'r ddau gyngorydd a benodwyd yn gyfarwyddwyr Silent Valley.

\* Darparwyd y ffigurau gan y Cyngorydd

^Darparwyd y ffigurau gan Gyngor  
Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

### **Adran 2: Gweithgarwch Etholaeth**

- Wedi cynnal syrjeris cyngorydd ar y cyd â'r Cyngorydd Day a'r Cyngorydd Holt (6 i gyd).
- Wedi sefydlu tudalen Facebook Pryderon Cymunedol Cwmtylleri gyda'r Cyngorydd Day i ddarparu diweddariadau ar faterion sy'n effeithio ar ward Cwmtylleri (diweddariadau'r cyngor / adroddiadau am faterion / casgliadau sbwriel lleol / gwybodaeth am sefydliadau eraill e.e. syrjeris heddlu / Cyngor ar Bopeth / Age Cymru)
- Wedi trefnu cyfarfodydd rheolaidd (bob 8-10 wythnos) gyda'r heddlu i nodi materion sy'n effeithio ar Gwmtylleri
- Wedi gwneud defnydd o'r 'Ap Fy Ngwasanaethau Cyngor' i roi gwybod am faterion (yn ogystal ag adrodd dros y ffôn / trwy e-bost / yn bersonol) a hefyd wedi ei hysbysebu ac annog preswylwyr i'w ddefnyddio
- Wedi adrodd ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud â thipio anghyfreithlon / materion torri glaswellt / tai (tai calon / linc / United Welsh / datrysiadau tai) / tyllau potiau / biniau / draenio / cynllunio / ymddygiad gwrthgymdeithasol ayyb. Mae canlyniadau nodedig yn cynnwys sicrhau ramp ar gyfer preswilydd nad oedd am symud, bolardiau yn Stad Ddiwydiannol Cwmtylleri (ar y cyd â'r heddlu / diogelwch cymunedol a'r Cyngorwyr Day a Sharrem), cymorth gyda chais cynllunio (a wrthodwyd i ddechrau) i sicrhau y gellid gwneud addasiadau i blentyn anabl, gan sicrhau cymorth casglu i breswilydd a oedd yn dioddef yn ddi-baid o beidio â chasglu ei sbwriel a sicrhau arwyddion i ystad Ddiwydiannol Cwmtylleri i helpu i leddfu cerbydau nwyddau trwm sy'n mynd i fyny Tillery Street / Heol Pen-y-bont.
- Wedi mynychu sawl ymweliad safle â swyddogion mewn perthynas â rhai o'r materion

uchod.

- Wedi mynychu cyfarfodydd cymdeithasau preswylwyr gyda chymdeithas breswylwyr Pen-y-bont a chymdeithas Trigolion Tillery Road.
- Wedi cysylltu ag asiantaethau eraill pan fo angen – e.e. adrodd am Ymddygiad gwrthgymdeithasol i'r heddlu, materion yn ymwneud â'r gronfa ddŵr a'r pwysau dŵr i Dŵr Cymru Welsh Water, cyngor budd-dal gan Cyngor ar Bopeth, DVLA (cerbydau wedi'u gadael)
- Mae gen i fusnes yn nhref Abertyleri lle mae pobl yn dod i mewn i adrodd am faterion (bwrdeistref sirol ehangach) bob dydd.

### Adran3: Gweithgareddau Gweithredol a Chraffu

Wedi mynychu'r canlynol:

- Cyngor Blynnyddol / y Cyngor x4 / Cyngor Arbennig x2
- Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol x6
- Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol x5 (is-gadeirydd) / trwyddedu statudol x 4 (is-gadeirydd)
- Cyd-bwyllgor Craffu x2
- Pwyllgor Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol x5

Rwyf ar y gweithgor sy'n edrych ar bolisi salwch BG (parhaus). Rwyf hefyd wedi mynychu 12 o baneli maethu a chyfarfodydd gyda Silent Valley.

### Adran 4: Hyfforddiant a Datblygiad

Wedi mynychu'r canlynol:

- Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin / Bargen Ddinesig Prifddinas Ranbarth Caerdydd / Newidiadau i'r Cwricwlwm
- Cod Ymddygiad - Briffio Aelodau / Cymunedau yn Gyntaf / Diogelwch Cymunedol
- Rhianta Corfforaethol a Diogelu / Addysg Gartref Dewisol / Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Fframwaith Arolygu Estyn a Chydweithredu Addysg
- Polisi Cynnal a Chadw Priffyrdd / Dyraniadau Tai
- Ian Botrill Making The System Work For You
- Trwyddedu / Cynllun Datblygu Lleol / Fy Ngwasanaethau Cyngor
- Wedi cyhoeddi Asesiad Llesiant / Aelodau Craffu Cwestiynu a Gwranddo
- Rôl Pwyllgor Craffu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Gwasanaethau Gwastraff / Diwygio Llesiant

Yn ogystal, rwyf wedi mynychu diwrnod ymsefydlu 'marchnad' y cyngor, hyfforddiant y panel maethu (1 diwrnod) a hyfforddiant cyfarwyddwr (hanner diwrnod). Rwy'n cydnabod bod rhai cyfarfodydd wedi cael eu colli, ond mae hyn yn bennaf oherwydd gwrthdaro â chyfarfodydd eraill. Mae hyn wedi'i ddatrys yn rhannol erbyn hyn trwy symud y Panel Maethu i ddiwrnod gwahanol.

### Adran 5: Mentrau, Gweithgareddau Arbennig a Materion

## Appendix 2

- Parhau i fod yn gasglwr sbwriel cofrestredig (wedi cwblhau dros 60 awr) ac wedi trefnu nifer o gasgliadau sbwriel yn y ward. Mae rhai wedi cynnwys help gan eraill (e.e. roedd codi sbwriel Blaenau Gwent yn cynnwys Cyngorwyr Eglwys / Tref Blaenau Gwent a'r Rotari i glirio'r fynwent a'r ardal gyfagos – casglwyd 50+ o fagiau). Mae eraill yn cynnwys codi sbwriel Bournville gyda'r Cyngorydd Day a Chymuned Dysgu Codi Sbwriel Abertyleri (ALC) (unwaith eto gyda'r Cyngorydd Day).
- Wedi symud ymlaen brosiect Coetiroedd Cymunedol Roseheyworth gyda CANCO. Wedi trefnu ymweliad safle â swyddogion i weld beth ellir ei wneud, a helpu gyda cham cyntaf y gwaith glanhau (dros 30 o fagiau a nifer o eitemau eraill) a pharhau i gymryd rhan.
- Wedi cefnogi chwaraeon pobl ifanc (pêl-rwyd / rygbi / pêl droed / trampolîn) yn ogystal â chlybiau lleol eraill gyda'm 'half penny fund' a chyfraniadau personol.
- Wedi cefnogi ALC mewn cystadleuaeth siarad ieuencid lle roeddwn i'n feirniad.
- Wedi mynychu clwb y dynion yn y ganolfan gymunedol leol i siarad am y cyngor a'r hyn y mae cyngorwyr yn ei wneud.

Mae hwn yn grynodeb byr o'm gweithgareddau dros y flwyddyn ddiwethaf. Nid yw gofod yn caniatáu i mi gynnwys popeth!

**Llofnod y Cyngorydd: J. Wilkins**

**Dyddiad: 25/06/2018**